



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

Ysgol Uwchradd Cyfarthfa

**Cae Mari Dwn
Queen's Road
CF47 0LS**

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2024

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant
yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Uwchradd Cyfarthfa

Enw'r darparwr	Ysgol Uwchradd Cyfarthfa
Awdurdod lleol	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Iaith y darparwr	Saesneg
Math o ysgol	Uwchradd
Cymeriad crefyddol	*
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	858
Disgyblion o oed ysgol statudol	857
Nifer yn y chweched dosbarth	*
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 21.2%)	19.1%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 14.8%)	14.7%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	0.0%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	0.8%
Dyddiad penodi'r pennaeth	01/09/2022
Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol)	14/03/2016
Dyddiad dechrau'r arolygiad	18/03/2024

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru:

fysgolleol.llyw.cymru

- Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

Trosolwg

Mae arweinwyr ar draws yr ysgol yn dangos ymrwymiad clir i gymuned yr ysgol ac yn darparu amgylchedd gofalgar a chefnogol. Ers ei benodi, mae'r pennaeth wedi gosod disgwyliadau uchel ynghylch presenoldeb, ymddygiad ac ymgysylltiad disgyblion â dysgu.

Yn gyffredinol, mae'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4 yn cynnig ystod addas o bynciau cyffredinol a galwedigaethol. Gwnaed addasiadau i'r cwricwlwm i wella deilliannau yn llwyddiannus ar gyfer nifer fach o ddisgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio. Mae'r disgyblion mwyaf bregus, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) sylweddol, yn elwa ar raglenni astudio pwrpasol. Mae arweinwyr wedi gweithio gydag ysgolion cynradd lleol i ddatblygu cwricwlwm sy'n adeiladu'n addas ar ddysgu blaenorol disgyblion. Fodd bynnag, mae darpariaeth annigonol ar gyfer datblygu medrau rhifedd a llythrennedd disgyblion yn raddol, yn enwedig eu medrau darllen ac ysgrifennu datblygedig. Mae hyn yn rhwystro'u cynnydd llwyddiannus.

Caiff disgyblion ystod o gymorth addas ar gyfer eu lles a'u cynnydd. Er enghraifft, caiff disgyblion gymorth ar gyfer eu hanghenion dysgu ychwanegol, i roi hwb i'w cymhwysedd mewn llythrennedd a rhifedd sylfaenol, ac fe gânt gyfleoedd i ymgysylltu â rhaglenni sydd wedi'u hanelu at wella'u hunan-barch, eu gwydnwch a'u hymgysylltiad ag addysg. Mae disgyblion yn elwa ar ystod eang o weithgareddau allgyrsiol. Maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd sydd ar gael i ddatblygu dealltwriaeth o wahanol ddiwylliannau, gwerthoedd a dewisiadau bywyd, a pharch amdanynt. Fodd bynnag, mae cyfleoedd annigonol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau arwain. Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd a gyda phartneriaid yn dda i ddarparu amgylchedd gofalgar a chefnogol ar gyfer disgyblion, sy'n annog disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio i aros mewn addysg. Mae disgyblion yn y Ganolfan Adnoddau Dysgu yn cael cwricwlwm difyr sy'n ystyried eu mannau cychwyn yn dda. Mae presenoldeb islaw'r presenoldeb mewn ysgolion tebyg, ac mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim islaw cyfradd presenoldeb Cymru. Nid yw arweinwyr bugeiliol a lles yn gwerthuso effaith eu gweithgareddau yn ddigon da i nodi pa agweddau ar eu darpariaeth sy'n cael yr effaith fwyaf.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn barchus gydag ymwelwyr, staff a'i gilydd. Mae llawer ohonynt yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn cyrraedd gwersi'n brydlon, yn ymddwyn yn dda, ac yn ymgysylltu'n gynhyrchiol â'u dysgu. Pan mae'r addysgu'n gryf, mae bron pob un o'r disgyblion yn ymgysylltu'n bwrpasol â thrafodaethau dosbarth a gweithgareddau dysgu eraill, a'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd cryf. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn oddefgar yn eu dysgu, ac mae gormod o ddisgyblion yn gadael gwaith heb ei orffen. Mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cyfyngedig, ar y cyfan. At ei gilydd, mae gwendidau pwysig yn yr addysgu mewn lleiafrif o wersi, gan gynnwys mewn meysydd pynciau craidd, lle nad oedd dulliau cynllunio ac addysgu yn diwallu anghenion disgyblion yn ddigon da.

Ers ei benodi ddeunaw mis yn ôl, mae'r pennaeth wedi dangos dealltwriaeth gadarn o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu eang yn yr ysgol, ac ystyrir y meysydd hyn yn briodol wrth gynllunio gwelliant. Mae wedi cefnogi uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn briodol i ffurfio dealltwriaeth well o ansawdd yn eu meysydd cyfrifoldeb.

Fodd bynnag, nid yw'r strwythur arweinyddiaeth presennol yn darparu trefniadau rheoli llinell cadarn ar draws y cwricwlwm, yn enwedig mewn pynciau craidd. Mae gan arweinwyr farn rhy gadarnhaol am ansawdd y ddarpariaeth yn eu meysydd ac nid ydynt yn nodi meysydd i'w datblygu yn ddigon manwl. Mae hyn yn rhwystro'u gallu i gynllunio'n drylwyr ar gyfer gwelliannau yn nysgu a lles disgyblion. At ei gilydd, nid yw arweinyddiaeth wedi cael digon o effaith ar fynd i'r afael â diffygion mewn addysgu, gwella presenoldeb, datblygu medrau disgyblion a'u defnydd o'r Gymraeg y tu allan i wersi Cymraeg. Codwyd ychydig o bryderon ynghylch iechyd a diogelwch gan arolygwyr yn ystod yr arolygiad.

Argymhellion

- A1 Sicrhau bod y strwythur arwain yn deg ac yn cynnwys rolau, cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd clir
- A2 Mireinio hunanwerthuso a chynllunio gwelliant i ganolbwyntio'n fanwl ar yr agweddau pwysicaf ar y ddarpariaeth sydd angen eu gwella
- A3 Mynd i'r afael â gwendidau mewn addysgu fel ei fod yn effeithio'n gadarnhaol ar gynnydd disgyblion mewn gwersi a thros gyfnod
- A4 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer cydlynu datblygiad graddol medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion
- A5 Gwella presenoldeb disgyblion
- A6 Mynd i'r afael â'r materion iechyd a diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad

Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o'r farn fod angen mesurau arbennig yn gysylltiedig â'r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob 4 i 6 mis.

Prif werthusiad

Dysgu

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Maent yn galw dysgu i gof yn addas ac yn cymhwyso hyn yn briodol i sefyllfaoedd newydd. Mewn lleiafrif o wersi lle mae'r addysgu'n gryf, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn unig. Mae hyn yn aml oherwydd diffygion mewn addysgu. Mae disgyblion sy'n

mynychu'r Ganolfan Adnoddau Dysgu (CAD) yn gwneud cynnydd cryf, ar y cyfan. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd cadarn ar raglenni ymyrraeth i wella'u medrau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, mae eu cynnydd dros gyfnod yn rhy amrywiol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud yn y dosbarth ac yn dilyn cyfarwyddiadau athrawon yn brydlon. Fodd bynnag, mae ychydig ohonynt yn ei chael yn anodd dilyn cyfarwyddiadau neu ddal ati i ganolbwyntio. Mae mwyafrif y disgyblion yn ymgysylltu'n dda â thrafodaeth ddosbarth. Mae tua hanner y disgyblion yn ymateb yn briodol i gwestiynau athrawon. Mae ychydig ohonynt yn esbonio'u syniadau'n glir mewn ymatebion estynedig, gan ddefnyddio'u gwybodaeth flaenorol neu'u terminoleg pwnc yn effeithiol, er enghraifft wrth ddisgrifio sut gall ystum sefyll a braich effeithio ar effeithiolrwydd gosod a phalu mewn pêl foli. Mae ymatebion tua hanner y disgyblion ar lafar yn rhy fyr. Mae hyn yn aml oherwydd diffygion yn yr holi gan athrawon neu oherwydd nad yw disgyblion yn sicr o ran eu gwybodaeth bynciol ac nid oes ganddynt hyder i fynegi eu syniadau.

Mae mwyafrif y disgyblion yn ymgysylltu'n briodol â thestunau ac yn dangos medrau darllen a deall cadarn. Maent yn amlygu ac yn anodi testunau'n fedrus i nodi ffeithiau a nodweddion arddull allweddol. Mae ychydig o ddisgyblion yn casglu ystyr sylfaenol wrth ddadansoddi testunau neu'n cyfod eu cynnwys yn addas. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau darllen datblygedig yn ddigon da. Yn rhy aml, mae ymatebion disgyblion i destunau yn arwynebol, yn enwedig lle nad yw tasgau'n heriol. Mae disgyblion â medrau darllen gwan iawn yn gwneud cynnydd da o'u manau cychwyn wrth wella'u medrau darllen a deall sylfaenol dros gyfnod.

Mae disgyblion mwy abl yn ysgrifennu'n effeithiol, ar y cyfan. Maent yn strwythuro'u syniadau'n gydlynus, yn ymgorffori gwybodaeth berthnasol i gefnogi eu rhagdybiaethau lle mae angen, ac yn defnyddio ystod o eirfa a dyfeisiau arddull yn dda. Mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn briodol mewn pynciau perthnasol. Maent yn trefnu eu syniadau yn baragraffau ac yn eu mynegi ag eglurder addas. Fodd bynnag, mae mwyafrif y disgyblion, gan gynnwys y rhai mwy abl, yn gwneud camgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadegol sylfaenol sy'n effeithio ar ansawdd eu hysgrifennu. Mae diffyg rheolaeth yn ysgrifennu lleiafrif o ddisgyblion, ac nid yw wedi'i ddatblygu'n ddigon da o ran mynegiant, geirfa a strwythur.

Mae gan fwyaf y disgyblion amgyffrediad addas o ffeithiau rhif sylfaenol ac maent yn gweithio'n briodol gyda siapiau sylfaenol. Mae mwyafrif ohonynt yn plotio cromliniau llaw rydd ar graffiau yn briodol. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae gwendidau yng ngallu disgyblion i lunio, plotio, darllen neu ddehongli graffiau yn gywir, ac nid yw eu dealltwriaeth gysyniadol o fathemateg yn ddigon cryf. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn cael anhawster yn galw ffeithiau rhif sylfaenol i gof neu'n cael trafferth â chyfrifiadau sylfaenol. Caiff y gwendidau hyn effaith negyddol ar eu cynnydd a'u gallu i gymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae disgyblion yn datblygu medrau digidol, fel creu a didoli cronfeydd data neu raglennu yn dda mewn gwersi technoleg gwybodaeth (TG). Maent hefyd yn datblygu eu medrau digidol yn addas mewn ychydig o achosion ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mewn Saesneg, mae disgyblion yn defnyddio'u medrau meddwl cyfrifiadol i greu gemau sy'n atgyfnerthu eu dealltwriaeth o sut i sillafu homoffonau. Mae

disgyblion yn defnyddio ffotograffiaeth ddigidol neu feddalwedd 3D yn fedrus i greu delweddau mewn ychydig o bynciau.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn dda yn ystod gwersi addysg gorfforol. Maent yn meithrin eu ffitrwydd a'u stamina yn briodol wrth weithio ar raglenni ymarfer corff y maent wedi'u cynllunio eu hunain. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn datblygu eu creadigrwydd a'u medrau meddwl yn dda ym mhynciau'r celfyddydau mynegiannol. Er enghraifft, maent yn ymateb yn ystyriol i ddehongliadau amgen o gyfres o ddelweddau mewn gwersi celf, ac yn eu derbyn. Mewn ychydig o wersi, mae disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn effeithiol, er enghraifft pan gânt eu herio i fyfyrion ofalus ar anghydraddoldeb ac effaith rhyfel, tloedi a newid hinsawdd, a chreu cysylltiadau rhyngddynt. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn ddigon da ar draws y cwricwlwm.

Mae mwyafrif y disgyblion yn ynganu geiriau Cymraeg yn gywir ac yn dyfalbarhau, hyd yn oed pan fyddant yn ei chael yn anodd dweud geiriau newydd, er enghraifft. Mewn ychydig o wersi, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd eithriadol o dda yn eu gallu i sgwrsio yn Gymraeg. Fodd bynnag, mewn gwersi eraill, nid yw cynnydd llawer o ddisgyblion yn gadarn, ac maent yn ei chael yn anodd creu eu brawddegau eu hunain. Wrth ddarllen, mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o eirfa Gymraeg gyfarwydd ac maent yn strwythuro brawddegau sylfaenol yn Gymraeg yn effeithiol. Mae'r mwyafrif ohonynt yn ysgrifennu paragraffau byr yn annibynnol gyda safon addas o gywirdeb.

Lles ac agweddau at ddysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn Ysgol Uwchradd Cyfarthfa yn mwynhau'r ysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn saff, ac yn disgrifio'r ysgol fel lle gofalgarn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu cynorthwyo gan staff, ac yn gwybod sut i ofyn am gymorth priodol ar gyfer materion lles, fel bwlio. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion o'r farn nad yw'r ysgol yn delio â bwlio yn briodol.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r ystod eang o weithgareddau sydd ar gael iddynt, fel côr, cerddorfa, drama, a gwaith crosio. Yn benodol, caiff y Clwb LHDTTC+ ei werthfawrogi gan ei aelodau a chymuned ehangach yr ysgol.

Ar y cyfan, mae disgyblion yn siarad yn hyderus ac yn gwrtais ag oedolion, gan gynnwys ymwelwyr. Mae llawer ohonynt o'r farn fod staff yn gwrandao arnynt, ac mae ychydig ohonynt yn disgrifio â balchder sut maent wedi cael effaith gadarnhaol ar y fwydlen amser cinio ac amgylchedd yr ysgol. Mae ychydig o ddisgyblion yn datblygu eu medrau arwain yn dda fel aelodau o'r grŵp arwain myfyrwyr. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw disgyblion yn ddigon clir am y cyfleoedd ffurfiol i gyfrannu eu syniadau.

Mae disgyblion yn datblygu'n dda fel dinasyddion moesegol, ac mae llawer ohonynt o'r farn eu bod yn cael eu hannog i barchu pobl eraill. Maent yn siarad yn frwdfrydig am wersi sy'n cael eu neilltuo i gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae disgyblion yn y Ganolfan Adnoddau Dysgu (CAD) yn archwilio gwerthoedd, ymddygiadau, ac agweddau i'w helpu i ddatblygu i fod yn aelodau gweithgar a gwerthfawr o'u cymuned.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyrraedd gwersi'n brydlon ac yn ymdawelu'n gyflym i wneud eu gwaith. Maent yn gwranddo'n barchus ar eu hathrawon ac yn gweithio'n dda gyda'u cyfoedion pan gânt eu hannog i wneud hynny. Mewn ychydig o achosion, nid yw disgyblion yn barod i ddysgu neu maent yn rhy araf yn ymdawelu i weithio. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda â gweithgareddau ac yn dangos diddordeb yn eu dysgu. Pan mae'r addysgu'n fwyaf effeithiol, mae bron pob un o'r disgyblion yn cyfranogi'n dda yn eu dysgu, gan gynnwys cymryd rhan yn weithredol mewn trafodaethau dosbarth. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, mae disgyblion yn rhy oddefgar, nid ydynt yn dyfalbarhau ac nid ydynt yn ymgysylltu â dysgu'n ddigon da. Nid yw tua hanner y disgyblion yn cymryd digon o falchder mewn cyflwyno'u gwaith ysgrifenedig, ac mae gormod ohonynt yn gadael gwaith yn anghyflawn.

At ei gilydd, mae disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o wobrau a chosbau'r ysgol ac yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn ystod amser egwyl ac amser cinio. Fodd bynnag, mae ychydig iawn o ddisgyblion yn dangos ymddygiad anaeddfed mewn gwersi sy'n tynnu sylw disgyblion eraill oddi wrth ddysgu.

Disgynnodd cyfradd presenoldeb yr ysgol gan swm llai na'r hyn a welwyd yn genedlaethol rhwng 2019 a 2023. Fodd bynnag, roedd y gyfradd presenoldeb y llynedd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol a chyfradd presenoldeb ysgolion tebyg. Hyd yma eleni, mae'r ysgol wedi gwella'r gyfradd presenoldeb, ond mae'n parhau'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol a chyfradd presenoldeb ysgolion tebyg. Roedd presenoldeb disgyblion sydd yn gymwys i brydau ysgol am ddim yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol y llynedd ac mae'n parhau i fod yn destun pryder eleni.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae cwricwlwm yr ysgol yn adeiladu'n briodol ar ddysgu blaenorol disgyblion, ar y cyfan. Wrth ddewis eu hopsiynau yng nghyfnod allweddol 4, cynigir amrywiaeth o gyrsgiau cyffredinol a galwedigaethol i ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw cwricwlwm cyfnod allweddol 4 bob amser yn darparu dilyniant ar gyfer ystod lawn y pynciau sy'n cael eu hastudio yng nghyfnod allweddol 3. Mae disgyblion a rhieni yn derbyn gwybodaeth fuddiol am gynnwys y cyrsiau trwy fideos wedi'u creu gan arweinwyr pwnc a llyfryn opsiynau cynhwysfawr. Mae staff yn darparu cymorth ac arweiniad unigol i ddisgyblion trwy gydol y broses opsiynau.

Mae'r ysgol yn darparu cyrsiau effeithiol, teilwredig i ddiwallu anghenion y disgyblion mwyaf bregus trwy'r rhaglen cwricwlwm amgen. Yn y Ganolfan Adnoddau Dysgu, mae disgyblion yn derbyn darpariaeth bwrpasol sy'n darparu'n effeithiol ar gyfer eu hanghenion dysgu ychwanegol a'u lles.

Wrth gynllunio Cwricwlwm i Gymru, mae arweinwyr wedi gweithio'n agos gydag ysgolion cynradd lleol i sicrhau dilyniant mewn dysgu ar gyfer disgyblion ym Mlynnyddoedd 7 ac 8. Mae datblygiadau presennol y cwricwlwm sy'n gysylltiedig â Chwricwlwm i Gymru yn cyd-fynd yn agos â gweledigaeth uwch arweinwyr ar gyfer datblygu medrau disgyblion, gyda phwyslais penodol ar ddatblygu medrau darllen sylfaenol disgyblion. Mae ymyriadau llythrennedd a rhifedd buddiol ar gael ar gyfer disgyblion â medrau annatblygedig.

Mae arweinwyr yn defnyddio data o brofion mewnol ac allanol yn addas i nodi a mynd i'r afael â meysydd allweddol i'w datblygu yng ngallu darllen sylfaenol disgyblion. Mae athrawon yn hyrwyddo darllen er pleser yn ystod gwersi darllen a'r sesiynau 'gadael pob dim a darllen' i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion wedi'u datblygu'n ddigon da, yn enwedig eu medrau darllen ac ysgrifennu datblygedig, yn eu gwersi ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn aml oherwydd nad yw athrawon yn cynllunio nac yn modelu'n effeithiol ar gyfer ansawdd y gwaith sy'n ofynnol gan ddisgyblion ar sail eu manau cychwyn.

Ceir ystod addas o gyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu medrau rhifedd mewn pynciau perthnasol heblaw mathemateg. Fodd bynnag, nid yw cynllunio strategol yr ysgol ar gyfer datblygu medrau rhifedd disgyblion yn raddol wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Yn gyffredinol, nid yw addysgu rhifedd yn canolbwyntio'n ddigon da ar fedrau rhif neu ddealltwriaeth gysyniadol disgyblion. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i ddisgyblion gymhwyso'u gwybodaeth fathemategol yn hyderus ac yn gywir i gyd-destunau bywyd go iawn.

Mae cydlynwyr wedi adolygu'r cwricwlwm i fynd i'r afael â bylchau mewn darpariaeth ar gyfer datblygu cymhwysedd digidol disgyblion. Fodd bynnag, ni chaiff disgyblion ddigon o gyfleoedd, ar y cyfan, i ddatblygu'r medrau digidol a ddysgwyd mewn gwersi TG mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm.

Mae disgyblion mwy abl yn elwa ar brofiadau cyfoethogi gwerthfawr, gan gynnwys partneriaeth yr ysgol â Phrifysgolion Abertawe a Rhydychen, ymweliadau â CERN, clwb trafod, a chymryd rhan mewn cystadlaethau meddwl beirniadol.

Mae'r ysgol yn dechrau ymestyn ei darpariaeth ar gyfer datblygu a dathlu'r Gymraeg, ei threftadaeth a'i diwylliant. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cynnal dwy eisteddfod bob blwyddyn, un ohonynt gyda'i hysgolion cynradd partner. Fodd bynnag, nid yw'r defnydd o'r Gymraeg o gwmpas yr ysgol wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae rhaglen Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) yr ysgol yn ymdrin â materion perthnasol fel byw yn iach, cydsynio a gwneud dewisiadau gwybodus. Mae arweinwyr yn dadansoddi gwybodaeth a gasglwyd o holiaduron lles disgyblion ac yn addasu'r ddarpariaeth i fynd i'r afael â phryderon cenedlaethol presennol, gan gynnwys darparu sesiynau ar beryglon fepio a hyrwyddo diogelwch ar-lein. Ceir cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu am hanes a phrofiadau pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a phobl LHDTTC+ mewn gwasanaethau ysgol, sesiynau tiwtorial, a gwersi ABCh ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, gan alluogi disgyblion i gael profiadau gwerthfawr sy'n cefnogi eu datblygiad personol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd gwerthchweil a chynhwysol i ddisgyblion ddilyn eu diddordebau mewn chwaraeon, er enghraifft yn ystod 'Dydd Mercher Lles' pan fydd disgyblion yn gallu cymryd rhan mewn disgo sbin a badminton ar ôl yr ysgol.

Mewn mwyafrif o wersi, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n adeiladu ar ei gilydd yn briodol ac yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu herio'n briodol. Mae'r athrawon hyn yn darparu cyfarwyddiadau ac esboniadau clir, ac yn defnyddio adnoddau priodol i gefnogi dysgu. Maent yn gofyn cwestiynau addas i brofi

gwybodaeth disgyblion, yn mynd o gwmpas yr ystafell ddosbarth i fonitro cynnydd, ac yn rhoi adborth buddiol ar lafar.

Mewn lleiafrif o wersi, mae athrawon yn cynllunio'n dda ar gyfer beth fydd disgyblion yn ei ddysgu. Yn yr achosion hyn, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni, ac maent yn defnyddio'u gwybodaeth flaenorol am alluoedd disgyblion i sicrhau eu bod yn cael eu herio'n dda. Maent yn defnyddio modelu yn effeithiol i ddangos i ddisgyblion sut i gyflawni'r safon ofynnol o waith y dylent fod yn anelu ati, a sicrhau cydbwysedd priodol rhwng adegau pan mae'r athro'n arwain y dysgu a chyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol neu mewn grwpiau bach. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn gofyn cwestiynau treiddgar sy'n gofyn i ddisgyblion feddwl yn ddwys a rhoi ymatebion estynedig ar lafar sy'n amlinellu eu rhesymau. Maent yn monitro cynnydd disgyblion yn agos ac yn addasu lefel yr her neu gyflymdra'r addysgu yn unol â hynny.

Mewn lleiafrif o wersi, mae diffygion sylweddol mewn addysgu yn golygu bod disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn unig. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon yn ystyried manau cychwyn disgyblion yn ddigon da wrth gynllunio gweithgareddau, neu nid oes ganddynt ddisgwyliadau digon uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Felly, nid yw lefel yr her a chyflymdra'r addysgu yn gweddu'n dda i alluoedd disgyblion. Yn aml, mae athrawon yn gor-gyfarwyddo'r dysgu yn y gwersi hyn ac nid ydynt yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion feddwl a gweithio'n annibynnol. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn cynnig tasgau nad ydynt yn gofyn digon i ddisgyblion, fel copïo oddi ar y bwrdd, ac maent yn gwneud llawer o'r gwaith dros y disgyblion. Nid ydynt yn defnyddio holi'n ddigon da i ddyfnhau neu brocio dysgu'r disgyblion. Mewn ychydig iawn o achosion, nid yw athrawon yn mynd i'r afael ag ymddygiad gwael yn ddigon effeithiol.

At ei gilydd, mae ansawdd yr adborth yn rhy amrywiol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn rhoi cyngor manwl i ddisgyblion ar yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith a sicrhau eu bod yn ymateb yn briodol i wella ansawdd eu gwaith. Fodd bynnag, yn aml, nid yw'r adborth yn ddigon manwl, ac nid yw athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymateb yn bwrpasol.

Mae'r ysgol yn rhoi gwybod i rieni a gofalwyr yn gyson am gynnydd eu plentyn trwy nosweithiau rhieni ac adroddiadau interim a llawn rheolaidd. Mae adroddiadau llawn yn cynnwys gwybodaeth fanwl am gynnydd disgyblion a'u hagweddau at ddysgu, ynghyd â thargedau buddiol yn amlinellu sut gallant wella.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae arweinwyr a staff yn Ysgol Uwchradd Cyfarthfa yn meithrin cymuned gynhwysol a gofalgwr sy'n annog disgyblion i fod yn barchus a goddefgar. Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o ddarpariaeth i gefnogi lles disgyblion a'u helpu i ffynnu yn yr ysgol. Mae tîm o staff, sydd wedi ymrwymo'n gadarn i feithrin y disgyblion, a gofalu amdanynt, yn gweithio gyda'i gilydd yn agos. Maent yn anelu at sicrhau bod disgyblion yn gallu ymgysylltu'n gadarnhaol â bywyd yr ysgol ac elwa ar y profiadau a gynigir iddynt. Er bod y gofal, y cymorth a'r arweiniad ar gyfer disgyblion yn gynhwysfawr, nid yw'n cael ei gyfeirio'n ddigon strategol na'i werthuso'n fanwl i finiogi effaith y gwaith.

Mae gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith i olrhain a monitro lles disgyblion. Mae staff yn defnyddio ystod o arolygon i fesur cynnydd disgyblion mewn lles o'u mannau cychwyn. Mae'r tîm yn gweithredu proses nodi ac atgyfeirio a ddeallir yn dda yn seiliedig ar ddealltwriaeth gref o anghenion disgyblion. Mae Canolfan Cymorth i Fyfirwyr sefydledig yn darparu ystod eang o raglenni wedi'u targedu'n briodol sy'n helpu disgyblion i wella'u hunan-barch a'u gwydnwch. Mae'r dull hwn yn galluogi dysgwyr bregus i dderbyn cymorth amserol, er enghraifft trwy ymgysylltu â menter ymyrraeth gynnar sy'n rhoi cyfle i fanteisio ar gymorth arbenigol. Mae disgyblion yn y Ganolfan Adnoddau Dysgu yn elwa ar ystod o ymyriadau i gefnogi eu lles.

Mae'r ysgol yn dechrau defnyddio ymagwedd strategol at ddatblygu darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag arweinwyr i ddatblygu addysgu a dysgu i ddiwallu anghenion pob un o'r disgyblion. Er enghraifft, maent yn datblygu ymateb graddedig i nodi anghenion dysgu a datblygu strategaethau ar gyfer cymorth. Mae'r ysgol yn gosod gwaelodlinau clir ar gyfer ymyriadau, ac fe gaiff cynnydd ei fonitro'n rheolaidd. Mae arweinwyr yn gweithio gydag ystod eang o asiantaethau allanol i gynllunio darpariaeth briodol a sicrhau bod addasiadau rhesymol ar waith i ddiwallu anghenion grwpiau penodol o ddisgyblion ag ADY. Mae'r Hyb ADY yn cynnig man diogel i ddisgyblion gael cymorth gan staff allweddol sy'n eu hadnabod yn dda.

Mae'r ysgol wedi paratoi'n briodol i ddiwallu gofynion diwygio ADY. Mae'n gweithio'n agos â'r awdurdod lleol a'r ysgolion cynradd partner i ddatblygu ymagwedd gyson at greu cynlluniau datblygu unigol (CDUau) a nodi anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw prosesau i olrhain a gwerthuso cynnydd disgyblion ag ADY mewn gwersi ar draws yr ysgol wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae ystod briodol o strategaethau ar waith i gefnogi ymddygiad cadarnhaol ac arferion adferol. Mae'r ysgol yn gweithio'n addas mewn partneriaeth â'r gwasanaeth ieuencid a swyddogion Ysgolion Bro yr awdurdod lleol i gynorthwyo disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio i aros mewn addysg. At ei gilydd, nid yw strategaethau i wella presenoldeb wedi cael effaith ddigonol, yn enwedig ar bresenoldeb merched, disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Hefyd, nid yw dulliau a gyflwynwyd yn fwy diweddar i annog ymddygiad da wedi eu deall yn llawn gan bob un o'r disgyblion.

Mae partneriaethau llwyddiannus â'r eglwys leol a chymdeithas rhieni ac athrawon gefnogol wedi helpu'r ysgol i drefnu siop cyfnewid gwisg ysgol, siop prom dros dro, banciau bwyd, a menter i ddarparu tei ysgol ar gyfer pob plentyn.

Mae'r ysgol yn datblygu dealltwriaeth disgyblion yn briodol o ffyrdd iach o fyw a phwysigrwydd gwneud dewisiadau cadarnhaol. Er enghraifft, mae disgyblion yn elwa ar gymryd rhan mewn gweithgareddau fel 'Dydd Mercher Lles', 'Dydd Gwener Ffrwythau' a rhaglenni perthnasol am feithrin perthnasoedd cadarnhaol. Yn ychwanegol, mae Dŵr Cymru yn cydweithio â'r ysgol i godi ymwybyddiaeth am ddiogelwch personol o gwmpas cronfeydd dŵr.

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth addas ar gyfer datblygu dealltwriaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Ceir ystod o gyfleoedd priodol i helpu disgyblion i ddysgu am gydraddoldeb ac amrywiaeth. Er enghraifft, mae ymgysylltu ag elusen yn helpu ysbrydoli merched sydd mewn perygl o ymddieithrio i ddilyn

gyrfaoedd mewn peirianeg. Caiff disgyblion yn y CAD gyfleoedd buddiol i drafod gwerthoedd, ymddygiadau ac agweddau i'w helpu i ddatblygu i fod yn aelodau gweithgar a gwerthfawr o'u cymuned.

Mae'r tîm arwain myfyrwyr a benodwyd yn ddiweddar yn cyfrannu'n dda at agweddau ar fywyd yr ysgol, fel arwain gwasanaethau. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymgymryd â rolau arwain. Yn ychwanegol, nid yw'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol neu'r rhai sy'n gymwys i gael pryddau ysgol am ddim yn cael eu cynrychioli'n briodol. Er nad yw disgyblion yn y CAD wedi cael cyfle i gymryd rhan mewn grwpiau arwain ar draws yr ysgol, maent wedi datblygu eu rolau arwain eu hunain yn effeithiol o fewn y ddarpariaeth i gefnogi arferion ystafell ddosbarth.

Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o'u diwylliant, eu gwerthoedd crefyddol a'u cymuned leol trwy gysylltiadau ag eglwysi lleol, Canolfan Treftadaeth Iddewig Cymru, a phrosiect heddwch. Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys clwb gwau, Rock Out Tuesday, Gwobr Dug Caeredin, cyfleoedd chwaraeon, Criw Cymraeg, a chynhyrchiad yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu cyngor ac arweiniad priodol ar yrfaoedd ar gyfer disgyblion, ac mae'n gweithio'n agos gyda'r coleg lleol i sicrhau bod disgyblion yn gwbl ymwybodol o gyfleoedd ôl-16.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i gefnogi lles a diogelwch pob un o'r disgyblion. At ei gilydd, mae staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu. Fodd bynnag, nid yw ychydig iawn ohonynt yn gwbl ymwybodol o weithdrefnau i gadw disgyblion yn ddiogel. Mae arweinwyr wedi sefydlu prosesau effeithiol a chadarn i gynorthwyo disgyblion sy'n agored i bryderon ynghylch amddiffyn a diogelu plant. Mae'r tîm diogelu yn gweithio'n dda gyda phartneriaid i fynd i'r afael â phryderon am ddiogelwch disgyblion. Tynnwyd sylw'r ysgol at nifer o faterion iechyd a diogelwch yn ymwneud â safle'r ysgol yn ystod yr arolygiad.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a diben moesol yn seiliedig ar yr athroniaeth fod 'pob plentyn yn cyfri'. Mae uwch arweinwyr wedi cyfleu'r weledigaeth hon yn briodol, ac mae llawer o aelodau staff yn dechrau ei harddel.

Mae trefniadau rheolaeth llinell yn canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau'r ysgol a chynnydd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn canolbwyntio'n ddigon da ar wella addysgu. Er bod gan yr ysgol weithdrefnau addas ar gyfer rheoli perfformiad, nid ydynt wedi cael eu rhoi ar waith yn ddigon trylwyr i hyrwyddo gwelliannau mewn meysydd pwysig.

Ers ei benodi, mae'r pennaeth wedi nodi'n gywir y meysydd eang i'w gwella sydd eu hangen. Mae wedi cynorthwyo arweinwyr i wella'r ddarpariaeth a'r cymorth ar gyfer dysgwyr bregus yn briodol. Mae hefyd wedi dechrau mynd i'r afael â gwendidau strwythurol mewn rolau, cyfrifoldebau a dealltwriaeth arweinwyr o sut i gyflawni eu rolau i'w galluogi i nodi a mynd i'r afael â diffygion mewn darpariaeth yn gywir. Fodd bynnag, ceir ansefydlogrwydd sylweddol yn aelodaeth yr uwch dîm arweinyddiaeth. Ar hyn o bryd, nid yw strwythur y tîm hwn yn darparu llinellau atebolrwydd clir mewn

meysydd pwysig. Nid yw cyfrifoldebau uwch arweinwyr wedi'u dosbarthu'n gyfartal. Mae'r ffactorau hyn wedi cyfyngu ar allu arweinwyr i yrru gwelliannau ar draws yr ysgol. Dros gyfnod, nid yw arweinyddiaeth wedi cael digon o effaith ar wella addysgu, datblygu medrau disgyblion a'u defnydd o'r Gymraeg y tu allan i wersi Cymraeg, presenoldeb ac olrhain cynnydd disgyblion ag ADY. Yn ychwanegol, nid yw arweinwyr wedi sicrhau bod pob un o'r staff yn deall gweithdrefnau diogelu'n llawn.

Mae llawer o arweinwyr canol yn frwdfrydig am eu gwaith ac mae ganddynt ddealltwriaeth addas o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae ychydig ohonynt yn cynnig arweinyddiaeth gref ac fe gaiff hyn effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth yn eu meysydd cyfrifoldeb. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, mae arweinwyr pwnc yn rhy gadarnhaol am ansawdd yr addysgu, ac nid oes gan ychydig ohonynt ddisgwyliadau digon uchel o'u staff na'u disgyblion. Yn gyffredinol, mae cyfarfodydd cyfadranau ac adrannol yn canolbwyntio'n briodol ar gynnydd disgyblion. Fodd bynnag, mewn gormod o achosion, ymdrinnir â materion gweithredol yn y cyfarfodydd hyn. Mae arweinwyr cynnydd yn cynorthwyo disgyblion yn dda, ond nid ydynt yn gweithredu'n ddigon strategol yn eu rôl.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol i'r pennaeth ac yn cyflawni eu dyletswyddau'n briodol, gan gynnwys o ran bwyta ac yfed yn iach. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r materion allweddol sy'n wynebu'r ysgol, ac maent yn cynnig lefel briodol o her i arweinwyr.

Mae'r pennaeth a'r rheolwr busnes yn cynllunio'r gyllideb yn ddarvoudus, gan sicrhau bod gwariant yn cael ei gyfeirio'n briodol tuag at flaenoriaethau'r ysgol, ac maent wedi gwneud arbedion sylweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'r corff llywodraethol yn goruchwylio cyllideb yr ysgol yn briodol. Ceir cynlluniau addas i leihau effaith tlodi. Er enghraifft, mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn mynd ar ymweliadau addysgol ac yn gallu defnyddio offer cyfrifiadurol gartref fel nad ydynt yn cael eu gadael ar ôl. Fodd bynnag, nid yw'r strategaethau hyn wedi cael effaith ddigon cyson ar ddeilliannau ar gyfer y disgyblion hyn.

Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau gwerthuso priodol i adolygu safonau a darpariaeth. Maent yn casglu tystiolaeth uniongyrchol o wersi a gwaith disgyblion ochr yn ochr â dadansoddi data. Trwy'r prosesau hyn, maent yn nodi cryfderau a diffygion mewn addysgu a dysgu. Fodd bynnag, nid yw gwerthusiadau'n ddigon manwl i helpu arweinwyr i gynllunio gwelliannau. Mewn gormod o achosion, maent yn canolbwyntio ar gydymffurfio â gweithgareddau penodol, a dim digon ar ansawdd yr addysgu a'i effaith ar ddysgu. O ganlyniad, mae gan arweinwyr canol farn rhy hael am ansawdd eu darpariaeth. Nid yw arweinwyr ar bob lefel yn defnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd o'u prosesau hunanwerthuso yn ddigon da i yrru gwelliannau. Nid yw uwch arweinwyr yn blaenoriaethu meysydd i'w gwella yn ddigon clir na manwl i sicrhau ffocws ar yr agweddau pwysig ar y ddarpariaeth y mae angen eu gwella ar frys. Mae camau gweithredu a gynllunnir ganddynt i ysgogi gwelliannau yn rhy eang, ac mae mesurau llwyddiant yn aml yn annelwig. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i arweinwyr ddwyn staff i gyfrif yn briodol.

Mae'r ysgol yn darparu rhaglen dysgu proffesiynol addas sy'n canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau cenedlaethol, fel Cwricwlwm i Gymru a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad a lles disgyblion. Mae hyn yn cynnwys ychydig o gyfleoedd i staff

ddatblygu eu medrau arwain, er enghraifft trwy fentora neu arwain gweithgareddau dysgu proffesiynol. Mae arweinwyr hefyd yn sicrhau bod athrawon yn cael cyfleoedd buddiol i gydweithio a rhannu arfer dda. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid ydynt yn teilwra dysgu proffesiynol yn ddigon da i anghenion unigolion i wella diffygion pwysig mewn addysgu a nodwyd trwy hunanwerthuso. Mae arweinwyr yn dechrau cydweithio â darparwyr lleol eraill i ddatblygu ymagwedd gefnogol at wella addysgu. Mae'r ysgol hefyd yn gweithio gyda phartneriaid allanol i ddarparu cymorth targedig. Yn ychwanegol, mae'r ysgol wedi addasu ei phrosiectau ymchwil weithredu er mis Medi i ystyried adborth staff. Fodd bynnag, mae cynnydd y grwpiau hyn yn amrywiol, ac maent wedi cael effaith gyfyngedig ar ddarpariaeth. Nid yw arweinwyr yn gwerthuso effeithiau gweithgareddau dysgu proffesiynol ar addysgu a dysgu yn ddigon da.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (<http://www.estyn.llyw.cymru/>)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru/

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/05/2024